Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

12 Mawrth 2024

1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Deddf 2016 yn rhoi ystod o bwerau gwneud rheoliadau a mathau eraill o is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.

1.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024 (“y Rheoliadau Diwygio”). Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (“y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig”) mewn perthynas â thri maes.

1.3 Yn gyntaf, mae'r Rheoliadau Diwygio yn defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 2(3) o Ddeddf 2016 i sicrhau nad yw gwasanaeth Gofal Canolraddol awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn wasanaeth cartref gofal, er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2016. Bydd y gwasanaethau hyn yn parhau i gael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cymorth cartref.

1.4 Pan fydd darparwr gwasanaeth llety yn ailgyflunio'r mangreoedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth i letya 5 neu ragor o bobl, mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn ei gwneud yn glir bod rhaid i ystafelloedd gwely ychwanegol ac ardaloedd cymunedol y gwasanaeth fodloni'r gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i sicrhau ystafelloedd ymolchi en-suite, isafswm o ran maint ystafelloedd gwely, isafswm o fannau cymunedol, man hygyrch yn yr awyr agored ac, mewn rhai amgylchiadau, lifft i ddefnyddwyr.

1.5 Yn ogystal, mae'r Rheoliadau Diwygio yn gwneud mân ddiwygiadau amrywiol i reoliadau 6 a 7 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae’r pwerau sy’n galluogi i'r Rheoliadau Diwygio gael eu gwneud wedi’u cynnwys yn adrannau 2(3), 27(1) a 187(1)(b) o Ddeddf 2016. Ceir rhagor o fanylion isod:

- Mae adran 2(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, mewn rheoliadau, yr hyn na ddylid eu hystyried yn wasanaethau rheoleiddiedig at ddibenion Deddf 2016.

- Mae adran 27(1) yn bŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig.

- Mae adran 187(1)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016 sy'n gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau Diwygio yw cau bylchau anfwriadol yn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn esemptio gwasanaethau gofal canolraddol a ddarperir gan awdurdod lleol rhag gorfod cofrestru yn wasanaeth cartref gofal, ar yr amod bod y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu gan wasanaeth cymorth cartref cofrestredig yr awdurdod lleol, bod y llety wedi'i freinio yn yr awdurdod lleol a bod y gwasanaeth wedi'i gyfyngu i 16 o wythnosau ar y tro i unrhyw un unigolyn. Mae hyn yn sicrhau y gall y gwasanaethau hyn barhau i gael eu rheoleiddio fel gwasanaethau cymorth cartref.

4.2 Pan fydd darparwyr gwasanaethau llety yn ailgyflunio'u mangreoedd i letya 5 neu ragor o bobl, mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn sicrhau bod rhaid i ystafelloedd gwely ychwanegol ac ardaloedd cymunedol y gwasanaeth fodloni'r gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

4.3 Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn galluogi darparwyr llety i gofrestru mangreoedd sydd â 4 neu lai o ystafelloedd gwely (sydd wedi'u hesemptio rhag y gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig), ac wedi hynny, ailgyflunio'r mangreoedd a ddefnyddir gan y gwasanaeth i ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol heb orfod bodloni gofynion Rhan 13.

4.4 Yn ogystal, caiff darparwyr gwasanaethau llety sydd â 5 neu ragor o ystafelloedd gwely ar adeg cofrestru, nad oeddent yn dod o dan gategorïau A, B, neu C, fel y nodir yn rheoliad 49(2) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, ailgyflunio'u mangreoedd o dan y system bresennol i ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol heb i'r ystafelloedd neu'r ardaloedd cymunedol hyn orfod bodloni'r gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

4.5 Mae'r Rheoliadau Diwygio yn cau'r bwlch hwn er mwyn sicrhau y cynhelir safonau amgylcheddol mewn gwasanaethau llety sydd â 5 neu ragor o unigolion.

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hyn am gyfnod o 12 wythnos rhwng 15 Mai a 6 Awst 2023: https://www.llyw.cymru/rheoleiddio-gwasanaethau-preswyl-ysgolion-arbennig

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr opsiynau

Ystyriwyd dau opsiwn wrth ddadansoddi'r costau, y manteision a'r risgiau yn sgil diwygio Rheoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig") i fynd i'r afael â dau fater yn y fframwaith rheoleiddio.

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau gofal canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol mewn lleoliadau gofal ychwanegol. Mae gwasanaethau gofal canolraddol yn darparu llety a gofal tymor byr i bobl sydd naill ai'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu yn y broses o gael eu derbyn i'r ysbyty. Diben y gwasanaethau hyn yw mynd i'r afael â'r pwysau presennol ar systemau ysbytai drwy helpu pobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen, helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl wedi iddynt fod yn yr ysbyty, a helpu pobl i barhau i fyw gartref os ydynt, yn sgil salwch neu anabledd, yn profi anhawster cynyddol yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Rydym yn ymwybodol bod gofal canolraddol yn cael ei ddarparu drwy drefniant byw â chymorth (a elwir hefyd yn ofal ychwanegol) gan awdurdodau lleol, sydd hefyd yn prydlesu'r llety. Caiff yr elfen gofal a chymorth ei darparu gan wasanaeth cymorth cartref cofrestredig yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, gan fod y llety yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol ynghyd â'r gofal o dan y trefniadau hyn, maent yn dod o dan y diffiniad cyfreithiol o wasanaeth cartref gofal o dan Ddeddf 2016.

Er ei bod yn briodol parhau i reoleiddio elfen gofal a chymorth y gwasanaethau hyn fel gwasanaeth cymorth cartref, nid ydym o'r farn ei bod yn gymesur nac yn angenrheidiol eu rheoleiddio fel gwasanaeth cartref gofal.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

Mae'r ail fater yn ymwneud â darparwyr gwasanaethau llety sy'n ailgyflunio'u mangreoedd ar ôl cofrestru er mwyn ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol.

Mae Rhan 12 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn gosod gofynion cyffredinol ynghylch safonau ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau ar gyfer pob gwasanaeth llety. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn hygyrch, eu bod o faint digonol a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw yn briodol.

Mae Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn nodi gofynion ychwanegol ynghylch safonau ffisegol ystafelloedd a chyfleusterau ar gyfer gwasanaethau llety newydd neu estynedig. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i sicrhau ystafelloedd ymolchi en-suite, isafswm o ran maint ystafelloedd gwely, man hygyrch yn yr awyr agored a man cymunedol ar gyfer tri chategori o

“fangre newydd”. Caiff y categorïau hyn eu crynhoi yn rheoliad 49(2) fel a ganlyn:

- Categori A: Mae’r fangre a ddefnyddir ar gyfer darparu’r gwasanaeth yn adeilad newydd neu adeilad presennol sydd wedi cael ei addasu at ddiben darparu’r gwasanaeth.
- Categori B: Mae’r fangre yn adeilad neu adeiladau yr ychwanegir estyniad ato neu atynt
- Categori C: Mae’r categori hwn yn cwmpasu safleoedd heb eu meddiannu nad oeddent yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig yn union cyn cofrestriad y darparwr gwasanaeth o dan Ddeddf 2016 ond a oedd yn cael eu defnyddio o'r blaen at y diben hwnnw rywbryd yn y gorffennol, gan ddarparwr arall.

Diben Rhan 13 o’r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yw gwella'r ystad adeiledig dros amser heb ansefydlogi'r farchnad.

Mae ansicrwydd cyfreithiol ynghylch a yw ystafelloedd gwely ychwanegol a grëwyd wrth ailgyflunio mangreoedd presennol yn dod o dan Ran 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae hyn oherwydd nad yw’r fangre yn llety newydd, gan fod y darparwr eisoes wedi’i gofrestru, ac oherwydd nad yw'r arfer yn gorwedd yn daclus yn unrhyw un o'r categorïau a ddisgrifir yn Rhan 13.

Rydym am fynd i’r afael â'r bylchau hyn i sicrhau bod gwasanaethau sy'n creu ystafelloedd ychwanegol ar ôl cofrestru'r gwasanaeth i letya 5 neu ragor o unigolion yn bodloni'r gofynion a nodir yn Rhan 13 o'r Rheoliadau. Mae hyn yn debyg i'r dull a ddefnyddir ar gyfer estyniadau i wasanaethau llety.

Ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, dyma'r opsiynau a ystyrir:

Opsiwn un: peidio â gwneud dim - peidio â chreu rheoliadau i ddiwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

O dan opsiwn un, byddai'n ofynnol i wasanaeth gofal canolraddol a gaiff ei redeg gan awdurdod lleol o dan ei drefniadau presennol gofrestru yn wasanaeth cartref gofal.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

O dan yr opsiwn hwn, bydd gwasanaethau llety yn parhau i allu ailgyflunio'u mangreoedd ar ôl cofrestru i greu ystafelloedd gwely ychwanegol heb i'r gwasanaeth estynedig orfod bodloni'r gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, megis cyfleusterau en-suite, lleiafswm o ran

maint ystafelloedd, man hygyrch yn yr awyr agored ac, mewn rhai amgylchiadau, lifft i ddefnyddwyr.

Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

O dan yr opsiwn hwn, byddai gwasanaeth gofal canolraddol wedi'i esemptio rhag gorfod cofrestru yn wasanaeth cartref gofal ond byddai'n dal yn ofynnol iddo gael ei reoleiddio fel gwasanaeth cymorth cartref. Byddai'r esemptiad yn ddarostyngedig i'r canlynol: mai'r awdurdod lleol sy'n darparu'r gwasanaeth gofal canolraddol, bod y llety yn eiddo i'r awdurdod lleol neu'n cael ei brydlesu ganddo, bod elfen cymorth cartref y gwasanaeth yn cael ei chofrestru ag AGC, a bod y gwasanaeth wedi'i gyfyngu i 16 o wythnosau ar y tro i unrhyw un unigolyn.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn cael eu diwygio i sicrhau, pe bai gwasanaeth llety yn ailgyflunio'i fangre i greu ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer 5 neu ragor o unigolion, y byddai'r gwasanaeth estynedig (sy'n cwmpasu'r ystafelloedd gwely ychwanegol ac ardaloedd cymunedol y cartref) yn bodloni gofynion Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

Costau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim - peidio â chreu rheoliadau i ddiwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae'r adran a ganlyn yn amlinellu'r goblygiadau posibl o beidio â diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

O dan opsiwn un, ni fyddai gwasanaeth gofal canolraddol a gaiff ei redeg gan awdurdod lleol a ddarperir mewn lleoliad gofal ychwanegol yn cael ei esemptio rhag y gofyniad i gofrestru yn wasanaeth cartref gofal. Ni fyddai rheoleiddio'r math hwn o wasanaeth fel cartref gofal yn briodol nac yn gymesur oherwydd diben a natur y gwasanaeth.

Yn fwy arwyddocaol, er mwyn bodloni'r gofynion cofrestru ar gyfer gwasanaeth cartref gofal, byddai angen i'r darparwr ddangos bod y llety yn bodloni'r safonau amgylcheddol sydd yn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig Pe bai gan

wasanaeth gofal ychwanegol fwy na 4 ystafell wely, byddai'n ofynnol iddo gael cyfleusterau en-suite ym mhob ystafell wely, lleiafswm o ran gofod mewn ardaloedd cymunedol ac ystafelloedd gwely, man hygyrch yn yr awyr agored ac, mewn rhai amgylchiadau, lifft i ddefnyddwyr. Mae costau dangosol ar gyfer gosod cyfleusterau en-suite wedi'u cynnwys o dan opsiwn 2. Ystyrir bod y gofynion hyn (a'r costau cysylltiedig) yn anghymesur ar gyfer natur a diben y math hwn o wasanaeth.

O dan God Ymarfer Rhan 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Asesiadau Ariannol) a ddyroddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ni chaiff awdurdod lleol godi ffi am gymorth ailalluogi i berson am hyd at 6 wythnos. Pe bai'n rhaid i wasanaeth gofal canolraddol a gaiff ei redeg gan awdurdod lleol gau oherwydd y baich arno yn sgil y ffaith bod y gwasanaeth yn cael ei reoleiddio fel cartref gofal, efallai y byddai'n rhaid i'r awdurdod lleol gomisiynu'r gwasanaeth hwn gan gartref gofal preifat a allai fod yn ddrutach iddo (er y byddai'n parhau i fod am ddim i'r unigolyn).

Yn opsiwn arall yn hytrach na chofrestru yn ddarparwr cartref gofal, gallai awdurdodau lleol addasu eu trefniadau a llunio cytundebau tenantiaeth tymor byr ag unigolion sy'n derbyn gofal canolraddol, gan wahanu'n gyfreithiol agwedd gofal ac agwedd llety y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n anghymesur i awdurdodau lleol lunio cytundebau tenantiaeth ag unigolion oherwydd natur tymor byr y gwasanaeth a'r ffaith bod gan unigolion eu cartrefi eu hunain. Gallai llunio cytundeb tenantiaeth newydd arwain at ganlyniadau negyddol i unigolion, er enghraifft colli budd-dal tai, a byddai'n drefniant rhy fiwrocrataidd ar gyfer y math hwn o wasanaeth tymor byr.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

O dan opsiwn un, mae mwy o risg i AGC wynebu achosion o her gan ddarparwyr gwasanaethau pe bai AGC yn gwrthod cais gan ddarparwr i amrywio ei gofrestriad pan na chydymffurfiwyd â gofynion Rhan 13. Gallai achos o her yn erbyn AGC arwain at broses gyfreithiol hir a allai olygu buddsoddiad amser sylweddol i dîm cofrestru AGC, i wasanaethau cyfreithiol ac i ddarparwyr.

Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

O dan yr opsiwn hwn, bydd awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau gofal canolraddol mewn lleoliadau gofal ychwanegol yn gallu parhau i reoli'r gwasanaethau hyn fel gwasanaethau cymorth cartref. Ni fydd awdurdodau lleol, felly, yn gorfod ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chofrestru'r gwasanaethau hyn yn wasanaethau cartrefi gofal, fel y disgrifir yn opsiwn un.

Ni fydd yn ofynnol i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ymrwymo i gytundebau tenantiaeth â'r cyngor. Mae ymrwymo i gytundeb tenantiaeth yn arwain at gyfrifoldebau cyfreithiol i'r ddwy ochr. Gallai hyn achosi risg o golli budd-dal tai i'r rhai sy'n derbyn cymorth o'r fath ac mae'n debygol o arwain at oblygiadau ehangach i bob unigolyn, p'un a ydynt yn rhentu eu cartrefi neu'n berchen arnynt. Gan ystyried diben a natur tymor byr y gwasanaeth, byddai ei gwneud yn ofynnol i unigolion ymrwymo i gytundeb tenantiaeth yn broses rhy gymhleth a biwrocrataidd.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

O dan opsiwn dau, pe bai darparwr yn amrywio ei gofrestriad i greu capasiti ychwanegol yn y gwasanaeth, byddai'r Rheoliadau yn ei gwneud yn glir y byddai gan y gwasanaeth estynedig, sy'n cynnwys ystafelloedd gwely ychwanegol ac ardaloedd cymunedol y cartref, fan a chyfleusterau addas i ddiwallu anghenion yr holl unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Bydd sicrhau'r eglurder hwn yn y Rheoliadau yn lleihau'r risg o achos o her yn erbyn AGC pe bai cais yn cael ei wrthod i amrywio'r cofrestriad pan na chydymffurfir â gofynion Rhan 13. Dylai hyn arbed amser i AGC a gwasanaethau cyfreithiol yn ogystal â sicrhau eglurder i ddarparwyr.

Ers mis Ionawr 2019, mae 24 o ddarparwyr wedi cofrestru cartrefi gofal yn wasanaethau pedair ystafell wely ac yna wedi ailgyflunio'r cartrefi ychydig fisoedd yn ddiweddarach i greu pumed ystafell wely. Roedd 12 o'r gwasanaethau hyn yn gartrefi gofal i blant. Cyfanswm nifer y gwasanaethau cartrefi gofal o unrhyw faint sydd wedi gwneud cais i amrywio eu cofrestriad i gynyddu eu capasiti mwyaf yw 159. Roedd 37 o'r gwasanaethau hyn yn gartrefi gofal i blant. Fodd bynnag, ni allwn nodi o'r data hwn pa rai o'r amrywiadau hyn oedd yn sgil ailgyflunio'r cartref, gan fod ffyrdd eraill y gallai darparwr gynyddu ei gapasiti, er enghraifft drwy godi estyniad ar yr adeilad.

Byddai ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth ychwanegol fodloni'r gofynion sy'n cyfateb i Ran 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn debygol o greu angen am fuddsoddiad sylweddol gan ddarparwyr. Amlinellwyd rhai o'r costau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig a ddaeth i rym yn 2017. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

According to quotes gained from a number of reputable home improvement websites, the cost of fitting an en-suite usually ranges from around £3000 to £4500 plus VAT. However, the cost to install an en-suite including a shower would vary significantly depending on whether there was an existing en-suite present in the room with space for a shower to be installed, the quality of the materials used for the en-suite, the location of the premises and the number of en-suites being installed at any one time.

Gan ystyried y pwysau diweddar yn sgil chwyddiant a'r newidiadau byd-eang mewn amodau economaidd, mae'n debygol y bydd costau gosod ystafelloedd ymolchi en-suite yn llawer uwch yn 2024. Mewn nifer o achosion, bydd

ailgyflunio mannau presennol a sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion isaf o ran gofod yn amhosibl heb estyn yr adeilad.

Nid yw hwn yn ofyniad newydd ond yn ddiwygiad sy'n adfer bwriad polisi gwreiddiol y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Nod y Rheoliadau Diwygio hyn yw cau'r bwlch cyfreithiol er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cynnal mewn cartrefi sydd â 5 neu ragor o ystafelloedd gwely a sicrhau bod gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i'r ystad adeiledig yng Nghymru.

Ni fydd y newid hwn yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol. Bydd yn berthnasol i geisiadau am amrywio cofrestriad a bennir gan AGC ar ôl 31 Mawrth 2024.

Manteision

Opsiwn un: peidio â gwneud dim - peidio â chreu rheoliadau i ddiwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sy'n darparu gofal canolraddol mewn lleoliadau gofal ychwanegol o dan eu trefniadau presennol gofrestru yn wasanaeth cartref gofal, er y cydnabyddir nad yw hyn yn briodol nac yn gymesur ar gyfer gwasanaethau o'r diben a'r natur hwn. Gallai'r gofynion ychwanegol a roddir ar wasanaethau cartrefi gofal olygu na fyddai'r gwasanaethau hyn yn gallu cydymffurfio na chofrestru a gallai hyn arwain at y gwasanaethau hyn yn cau.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

O dan yr opsiwn hwn, byddai darparwyr gwasanaethau llety sy'n dymuno ailgyflunio'u mangreoedd yn elwa ar y bwlch yn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig sy'n caniatáu iddynt amrywio eu cofrestriad i ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol heb orfod bodloni gofynion Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

Bydd diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig er mwyn esemptio gwasanaethau gofal canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol rhag gorfod cofrestru yn wasanaeth cartref gofal yn sicrhau y gallant barhau i weithredu fel gwasanaeth cymorth cartref. Rydym o'r farn bod hyn yn ddull mwy cymesur ar gyfer rheoleiddio'r math hwn o wasanaeth, gan fod y gwasanaethau hyn yn debycach i drefniant byw â chymorth tymor byr na gwasanaeth cartref gofal. Mae sicrhau y gellir parhau i reoleiddio'r gwasanaethau hyn fel hyn yn golygu y bydd y gwasanaeth yn cael ei reoleiddio mewn modd cymesur.

Darperir y gwasanaethau hyn yn rhad ac am ddim gan awdurdodau lleol, at ddiben penodol ac am amser cyfyngedig, er mwyn pontio'r cyfnod rhwng yr adeg y caiff unigolion eu rhyddhau o'r ysbyty a'r adeg y cânt ddychwelyd adref pan nad oes gofal cymunedol priodol ar gael.

Mae sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gallu parhau i weithredu yn bwysig gan eu bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr sy'n helpu unigolion a'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r gwasanaethau hyn yn atal derbyniadau diangen i ysbyty neu gartref gofal, yn galluogi unigolion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl ar ôl iddynt fod yn yr ysbyty.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

Bydd diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn cau'r bylchau yn y Rheoliadau i sicrhau bod gan y gwasanaeth estynedig, sy'n cynnwys ystafelloedd gwely ychwanegol ac ardaloedd cymunedol y cartref, fan a chyfleusterau addas i ddiwallu anghenion yr holl unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth, yn unol â'r bwriad polisi gwreiddiol. Bydd hefyd yn rhoi eglurder a sicrwydd er mwyn lleihau'r risg o achos o her pe bai cais yn cael ei wrthod i amrywio'r cofrestriad pan na chydymffurfir â gofynion Rhan 13.

Risgiau

Opsiwn un: peidio â gwneud dim - peidio â chreu rheoliadau i ddiwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

Os yw'n ofynnol i wasanaethau gofal canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol gofrestru yn gartref gofal, ceir risg y gallai'r gwasanaethau hyn gael eu rheoleiddio mewn modd sy'n anaddas ar gyfer y math hwnnw o wasanaeth. Mae gwasanaethau gofal canolraddol yn chwarae rhan hollbwysig ar gyfer pontio'r bwlch rhwng gofal acíwt a dychwelyd adref i fyw'n annibynnol, gan helpu unigolion i adennill eu hannibyniaeth yn ogystal â lleihau'r baich ar ysbytai.

Pe bai rhaid i wasanaethau gofal canolraddol gau, gallai unigolion sy'n trosglwyddo o'r ysbyty i'r cartref, neu unigolion sydd angen cymorth yn y cartref, wynebu heriau os na allant ddod o hyd i wasanaeth arall. Gallent brofi oedi wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty neu gael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen, gan roi straen ychwanegol ar y system gofal iechyd.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr sy'n ailgyflunio'u cartrefi er mwyn ychwanegu ystafelloedd gwely ychwanegol ar ôl cofrestru lai o le cymunedol ar gyfer y preswylwyr sy'n weddill ac ni fydd cyfleusterau en-suite ar gael yn yr

ystafelloedd gwely ychwanegol. Byddai hyn yn arwain at anghysondebau mewn safonau ar draws cartrefi gofal yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r arfer hwn yn debygol o arwain at welliannau arafach yn yr ystad adeiledig dros amser, sy'n groes i'r bwriad polisi.

Fel y nodwyd yn yr adran ar gostau, ceir hefyd fwy o risg y bydd AGC yn wynebu achosion o her gyfreithiol gan ddarparwyr gwasanaethau llety pe bai AGC yn gwrthod cais i amrywio'r cofrestriad pan na chydymffurfir â gofynion Rhan 13. Gallai achos o her yn erbyn AGC arwain at broses gyfreithiol hir a allai olygu buddsoddiad amser sylweddol i dîm cofrestru AGC, i wasanaethau cyfreithiol ac i ddarparwyr.

Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Rheoleiddio gwasanaethau Gofal Canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol

O dan opsiwn dau, ceir risg y gallai dim ond esemptio gwasanaethau canolraddol a gaiff eu rhedeg gan awdurdod lleol ymddangos yn anghyson â'r dull cyffredinol ar gyfer rheoleiddio o dan Ddeddf 2016. Cafodd hyn ei adlewyrchu mewn dau ymateb i'r ymgynghoriad. Holodd un ymatebydd pam mai i awdurdodau lleol yn unig y mae'r esemptiad yn berthnasol, ac nid i ddarparwyr nid-er-elw, oherwydd byddai'r hyblygrwydd ehangach hwn yn ategu nodau'r llywodraeth i ailgydbwyso'r farchnad a chamu ymlaen â'r fenter Ymhellach, yn Gyflymach. Dywedodd ymatebydd arall y dylid rhoi'r rheoliadau ar waith mewn ffordd deg ar draws pob lleoliad gofal - rhai tymor byr, rhai tymor canolig a rhai hirdymor.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r mater dybryd o sicrhau y gall y gwasanaethau gofal canolraddol presennol sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol barhau i gael eu rheoleiddio mewn modd priodol a chymesur. Caiff y gwasanaethau hyn eu darparu yn rhad ac am ddim gan awdurdodau lleol, at ddiben penodol ac am amser cyfyngedig er mwyn pontio'r cyfnod rhwng yr adeg caiff unigolion eu rhyddhau o'r ysbyty a'r adeg y cânt ddychwelyd adref pan nad oes gofal cymunedol priodol ar gael.

Ailgyflunio gwasanaethau llety

Ceir risg y gallai opsiwn dau rwystro neu atal darparwyr rhag creu ystafelloedd gwely ychwanegol yn eu gwasanaethau oherwydd nad ydynt yn gallu bodloni'r gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Gallai hyn gael effaith fach ar gapasiti cyffredinol y system gofal cymdeithasol, gan gynnwys cartrefi gofal i blant. Gallai polisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal gynyddu'r ysgogiad i wella capasiti mewn cartrefi gofal i blant a gaiff eu rhedeg gan awdurdodau lleol, neu gartrefi gofal nid-er-elw i blant, a allai eu hannog i ehangu eu gwasanaethau.

Fodd bynnag, mae opsiwn dau yn atgyfnerthu'r bwriad polisi gwreiddiol sef bod rhaid i ehangiadau i wasanaethau llety sydd â 5 neu ragor o unigolion fodloni'r

gofynion yn Rhan 13 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae'r sefyllfa hon yn sicrhau bod gan unigolion sy'n byw mewn gwasanaethau sydd â 5 neu ragor o ystafelloedd gwely ddigon o fannau a chyfleusterau preifat a chymunedol, a bod gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud i'r ystad adeiledig dros amser.

Casgliad

Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.